**Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i adroddiad Pwyllgor Archwilio'r Cynulliad Cenedlaethol ar Ddigolledu Ffermwyr am Dwbercwlosis mewn Gwartheg yng Nghymru: Adroddiad Pwyllgor (2) 01-04**

Argymhellion:

i. **y dylai'r Cynulliad a'r Gwasanaeth Milfeddygol Gwladol barhau â'u hymdrechion i gael gwared ar ôl-groniad y profion hwyr;**

Cytuno. Nod Llywodraeth y Cynulliad a'r Gwasanaeth Milfeddygol Gwladol (SVS) yw cael gwared ar brofion hwyr. Gan gymryd i ystyriaeth ffactorau tymhorol, mae'r SVS yn hyderus bod yr ôl-groniad yn lleihau. Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn ystyried yr ymatebion i'r papur ymgynghori "Paratoi am strategaeth newydd ar gyfer TB mewn gwartheg ym Mhrydain Fawr" cyn penderfynu pa fesurau ychwanegol a allai fod yn addas i fynd i'r afael â'r mater hwn. Byddwn yn hysbysu'r Pwyllgor am y penderfyniadau a wneir.

ii. **y dylai'r Cynulliad feithrin cysylltiadau â'r rhanddeiliaid allweddol, megis y prif gymdeithasau bridio, er mwyn gwella'n gynaliadwy y ffordd y rheolir y broses brisio a gwella dealltwriaeth o'r broses honno;**

Cytuno. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi penodi Prisiwr Cyswllt Annibynnol, sy'n Ysgrifennydd ar Gymdeithas Ganolog Priswyr Amaethyddol Cymru (CAAV), i fod yn bwynt cyswllt rhwng Llywodraeth y Cynulliad, CAAV, Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS) a'r prif gymdeithasau pedigri a gwartheg. Yn ogystal, mae swyddogion y Cynulliad wedi cwrdd â'r prif gymdeithasau Pedigri a Gwartheg ac wrthi'n meithrin perthynas waith agosach â nhw gyda'r nod o rannu gwybodaeth ac arferion da. Mae'r camau hyn, ynghyd â'r mesurau i wella'r ffordd yr eir ati i fonitro prisiadau a'r ffaith bod y cysylltiadau gyda phriswyr a chymdeithasau brîd yn well, wedi arwain at ddealltwriaeth well o'r broses brisio a mwy o reolaeth drosti.

iii. **y dylai'r Cynulliad gydweithio'n agosach yn y dyfodol â phriswyr anifeiliaid er mwyn sicrhau bod gofynion y Cynulliad yn glir;**

Cytuno. Rôl y Prisiwr Cyswllt yw cynnal a datblygu'r berthynas â phriswyr a'u cynrychiolwyr. Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd rhwng swyddogion y Cynulliad, y Gwasanaeth Milfeddygol Gwladol a'r priswyr er mwyn rhannu gwybodaeth berthnasol ac arferion da. Ymhlith cyfrifoldebau'r Prisiwr Cyswllt y mae darparu cyfarwyddiadau manwl a phenodol ar ofynion Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer priswyr a thynnu sylw at eu cyfrifoldeb i roi gwerth am arian i'r trethdalwr.

iv. **y dylai'r Cynulliad sefydlu gweithdrefnau clir i fonitro lefelau'r iawndal a delir;**

Cytuno. Mae'r Cynulliad wedi sefydlu system i fonitro, gwerthuso a gwneud argymhellion ar bob prisiad gan gynnwys anifeiliaid pedigri ac anifeiliaid uchel eu gwerth. Mae'n ofynnol i'r Prisiwr Cyswllt holi'r priswyr am esboniad os yw prisiadau'n wahanol i brisiau presennol gwerthiannau marchnad neu wasgaru. Ar ôl ymgynghori â'r priswyr, mae'r swyddogion wedi cytuno ar broses ar gyfer craffu ar gyfran o'r holl brisiadau. Mae'r broses hon yn cael ei monitro'n ofalus er mwyn asesu ei heffeithiolrwydd, cyn ystyried a oes angen cyflwyno mesurau pellach.

v. **y dylai'r Gwasanaeth Milfeddygol Gwladol a'r Cynulliad fynd ati'n fuan i adolygu'r systemau gweinyddol ar gyfer digolledu ffermwyr er mwyn sicrhau eu bod yn gyson ac yn addas at eu diben;**

Cytuno. Mae'r Prisiwr Cyswllt wedi bod yn gweithio i ffurfioli'r cysylltiadau rhwng Llywodraeth y Cynulliad â'r Gwasanaeth Meddygol Gwladol ar bob lefel, a gwella'r systemau gwybodaeth a ddefnyddir i weinyddu a chofnodi taliadau iawndal. Yn ogystal â chynllun peilot i gasglu gwybodaeth ychwanegol, mae'r Cynulliad hefyd wedi bod yn adolygu'r ffurflenni presennol y mae priswyr yn eu llenwi er mwyn cael mwy o wybodaeth fel 'dosbarth pwysau', 'cynhyrchiant laeth', 'asesiad pedigri' a 'math'. Mae angen sicrhau bod Defra'n cytuno â hyn cyn cyflwyno'r ffurflenni manylach.

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi diweddaru a dosbarthu cyfarwyddiadau i'r priswyr hefyd. Bydd yn parhau i bwysleisio pa mor bwysig yw prisiadau cywir ac yn sicrhau bod gwybodaeth fanylach yn cael ei chofnodi am y stoc sy'n cael ei phrisio.

Bwriedir cyflwyno system TG newydd ar gyfer y Gwasanaeth Milfeddygol Gwladol er mwyn helpu i ddarparu pob agwedd ar wasanaeth yr SVS a'i wella, gan gynnwys y dulliau adrodd a monitro. Rhagwelir y bydd y gwaith hwn wedi'i gwblhau ymhen tua 12 mis.

vi. **y dylai'r Cynulliad sefydlu fframwaith cadarn i fonitro a rheoli perfformiad y priswyr, a gweithdrefn i atal y priswyr rhag prisio anifeiliaid pan fu eu perfformiad yn ddiffygiol;**

Cytuno. Mae'r Cynulliad wedi rhoi fframwaith cadarn yn ei le bellach ar gyfer monitro a rheoli perfformiad priswyr. Er enghraifft, cyflwynwyd systemau i gasglu prisiau'r farchnad yn fisol er mwyn eu hanfon at briswyr cyn eu bod yn cynnal prisiadau. Hefyd, nodir yn glir yn llythyron penodi'r priswyr bod yn rhaid i bob prisiad fod yn realistig ac yn deg i'r ffermwr a'r trethdalwr. Sefydlwyd gwell systemau ar gyfer casglu a monitro data a gwnaed trefniadau i edrych yn fanwl ar ganran o brisiadau ac archwilio'r rhai sy'n peri pryder. Os oes problem yn codi mewn perthynas â phrisiad, cymerir camau i'w datrys gan gynnwys ystyried y posibilrwydd o beidio â defnyddio gwasanaeth y Prisiwr hwnnw mwyach.

vii. **y dylai'r Cynulliad gyflwyno trothwyon ar gyfer mynnu bod priswyr yn rhoi cyfiawnhad**

**manylach dros eu prisiadau;**

Cytuno. Cyflwynwyd system i archwilio 10% o'r holl brisiadau yn fanwl a chymryd camau dilynol os bydd angen, yn ogystal ag archwilio prisiadau sy'n amlwg yn rhy uchel. Bydd y Cynulliad yn ystyried pennu trothwyon yng ngoleuni'r data a geir o archwiliadau'r 10%, y cynllun peilot (gweler Argymhelliad v) a'r system fonitro (gweler Argymhelliad iv).

viii **Dylai'r Cynulliad, ar ôl ystyried yn ofalus yr ymatebion i'r ymgynghori, sicrhau bod y trefniadau diwygiedig yn gyson ag argymhellion adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, a rhoi adroddiad i'r Pwyllgor hwn ar ganlyniad y broses.**

Cytuno. Mae'r ymatebion yn cael eu hystyried ar hyn o bryd a bydd swyddogion yn sicrhau bod polisïau Cymru yn y dyfodol yn gyson â'r argymhellion yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol. Bydd swyddogion yn adrodd yn ôl i'r pwyllgor ar hyn cyn diwedd y flwyddyn.